## Enghraifft Clwb y Flwyddyn

Mae gan Glwb Pêl-droed 'X' bresenoldeb enfawr yn y gymuned leol ac mae hyn yn cael ei amlygu gyda thwf parhaus yr holl dimau ac adrannau sydd gan y clwb ochr yn ochr â'r sylfeini cadarn y mae'r clwb yn eu hadeiladu oddi ar y cae.

Mae'r clwb yn rhedeg adran iau ac adran hŷn hynod lwyddiannus sydd wedi'u hen sefydlu ac mae'n ychwanegu'n barhaus at nifer y timau oherwydd nifer y plant ac oedolion yn y gymuned leol sydd am chwarae i'r clwb. Yn ddiweddar, mae'r clwb wedi dechrau tîm Dan 5/Dan 6 a thîm Dynion i Gyn-filwyr.

Ar hyn o bryd, mae gan y clwb 210 o chwaraewyr wedi'u cofrestru ac mae'n cynnal cyfanswm o 13 tîm ar draws yr adrannau iau a hŷn, sy'n dangos ein hymrwymiad sylfaenol i ddarparu cymaint o gyfleoedd ag y gallwn ni.

Mae sefydlu'r sylfaen gadarn hon wedi galluogi'r clwb i ddechrau ceisio cymorth ariannol allweddol ychwanegol yn llwyddiannus. Maen nhw wedi gwneud hyn drwy feithrin cysylltiadau allweddol gyda busnesau a rhanddeiliaid lleol sydd yn ei dro wedi galluogi'r clwb i sicrhau nifer o gytundebau nawdd.

Mae'r clwb hefyd wedi bod yn adeiladu a sefydlu tote clwb hynod lwyddiannus. Maen nhw wedi llwyddo i sicrhau perthynas waith allweddol gyda siopau a busnesau lleol yn y gymuned sydd wedi caniatáu cynnydd yn niferoedd y tocynnau sy'n cael eu gwerthu a'r trafodaethau ar lafar am y clwb.

O ganlyniad i'r gwaith da, mae'r clwb wedi dechrau ar y gwaith o helpu'r clwb i gyrraedd ei nod o gyflawni a chynnal pêl-droed ar lefel Cynghrair Cymru. Mae gwaith caled y pwyllgor ac aelodau'r clwb gyda'i gilydd yn caniatáu i'r clwb fuddsoddi'n barhaus mewn cyfleusterau yn eu maes cartref.

Yn ddiweddar, cafodd porthordy ei osod ar ddiwedd y cae er mwyn creu rhagor o incwm. Y rhwydwaith o wirfoddolwyr hynod gynorthwyol sydd gan y clwb wnaeth sicrhau bod hyn yn bosibl ac fe wnaeth aelodau roi o'u hamser sbâr eu hunain i'w adeiladu a'i ddatblygu.

Mae'r holl adnewyddiadau hyn yn cyflawni'r gofynion tir sydd eu hangen i chwarae o fewn pyramid cynghrair Cymru. Mae hyn ond wedi bod yn bosibl oherwydd gwaith caled ac ymrwymiad y pwyllgor i sicrhau bod nawdd, tote wythnosol a nosweithiau codi arian yn cael eu nodi neu eu trefnu er mwyn codi swm sylweddol o arian i'w fuddsoddi yn y clwb.

Mae cael pwyllgor ac aelodaeth clwb angerddol hefyd wedi galluogi'r clwb i gymryd cyfrifoldeb am y gwaith o gynnal a chadw'r cae. Maen nhw wedi buddsoddi'n helaeth i gynnal a chadw'r cae a diolch i'r ymroddiad llwyr hwn mae'r cae'n cael ei dorri a'i farcio bob wythnos, sy'n golygu ei fod yn y cyflwr gorau erioed. Gydag ychwanegiad y porthordy, gall hwn weithredu dim ond oherwydd bod aelodau'r pwyllgor yn rhoi o'u hamser sbâr eu hunain i redeg yr adeilad a gweithio yn ardal y bar ynghyd â'u holl ymrwymiadau eraill.

Mae'r clwb yn buddsoddi'n barhaus yn ei weithlu gwirfoddol, gan ganiatáu i ansawdd y sesiynau ac ansawdd y ddarpariaeth fod o safon uchel yn barhaus. Mae pob hyfforddwr yn cael cynnig cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn barhaus ac, o ganlyniad, mae gan bob hyfforddwr Drwydded C ac mae gan 2 Drwydded B. Mae pob hyfforddwr iau wedi mynychu cyrsiau amddiffyn a diogelu plant, ac mae gan bob tîm o leiaf un Swyddog Cymorth Cyntaf yn bresennol ym mhob sesiwn ymarfer a gêm.

Mae'r clwb yn gweithio gyda Chwaraeon Caerffili i nodi cyfleoedd ariannu y gall y clwb eu harchwilio a, dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethon nhw gais a chawson nhw arian i gynorthwyo twf yr adran iau.

Mae'r clwb yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod llwybr yn ei le o'r adran iau, i'r adran ieuenctid ac yna ymlaen i bêl-droed hŷn. O ganlyniad, y tymor diwethaf, fe wnaeth 8 o'r tîm Dan 18 presennol gynrychioli'r timau hŷn yn ystod y tymor a bydd hyn yn parhau i'r tymor newydd lle mae'r 8 hyn, ynghyd â 5 ychwanegol wedi sefydlu eu hunain fel dechreuwyr rheolaidd i'r tîm pêl-droed hŷn ac yn tanlinellu'r meddylfryd 'un clwb' sydd gan y clwb drwyddo draw.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r clwb wedi cyflawni cymaint sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y clwb ac ar weithrediad cyffredinol yr adrannau hŷn, ieuenctid ac iau.

- Yn cynnal 13 tîm ar hyn o bryd

• 2x tîm hŷn, 1x Cyn-filwyr, 1x Dan 16; 1x Dan 14; 1x Dan 13; 1x Dan 10; 2x Dan 9; 1x Dan 8; 2x Dan 6; 1x Dan 5
• 210 o chwaraewyr wedi cofrestru
• 15 o hyfforddwyr iau yn amrywio o Drwydded C i Drwydded B; mae gan bob hyfforddwr iau gymhwyster diogelu ac amddiffyn plant. O leiaf un Swyddog Cymorth Cyntaf yn gysylltiedig â phob tîm
• Mae un o'r chwaraewyr Dan 9 blaenorol wedi arwyddo gydag Academi Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
• Wedi cynhyrchu £30,000 drwy'r tote a chytundebau nawdd er budd pob adran o'r clwb
• Gweithio gyda Chwaraeon Caerffili/Chwaraeon Cymru i nodi cyfleoedd ariannu
• Buddsoddi'n barhaus mewn cyfleusterau yn eu maes cartref
• Darparu bws mini ar gyfer y tîm dan 18 a thimau datblygu sy'n sicrhau bod cymryd rhan mewn chwaraeon yn agored i bawb

Mae Clwb 'X' yn haeddu ennill gwobr clwb y flwyddyn oherwydd yr egni, brwdfrydedd ac ymrwymiad y mae pob aelod o'r clwb a'r pwyllgor wedi'i roi i'r clwb cyfan.
Mae'n dyst i bob unigolyn bod y clwb wedi tyfu cymaint mewn cyfnod mor fyr. Mae'r gwaith y mae'r clwb wedi'i wneud oddi ar y cae wedi rhoi'r cyfle i gymaint o blant ac oedolion yn y gymuned leol gymryd rhan mewn chwaraeon ac mae wedi gosod y clwb yn ganolog iddi. Maen nhw wedi dangos penderfyniad mawr i gael y clwb lle mae heddiw ac roedd y gwaith a wnaed y tymor diwethaf heb ei ail, ac maen nhw'n haeddu cael eu cydnabod am hyn.